Fforwm Iechyd
Meddwl a Lles Cymru
Wales Mental Health
and Wellbeing Forum

# Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru
# Hysbysiad Preifatrwydd Recriwtio

## Datganiad GDPR Practice Solutions

Mae Practice Solutions yn rhoi cymorth i'r fforwm drwy gyfrwng model cyd-gynhyrchu. Rydym yn gweithio gydag aelodau'r fforwm a phartneriaid i'w helpu nhw i gynhyrchu'r canlyniadau gorau ar gyfer y sawl gyda phrofiad personol o iechyd meddwl a'r sawl sy'n ofalwyr.

Fel rhan o'r broses recriwtio hon mae Practice Solutions yn casglu ac yn prosesu data personol yn ymwneud ag ymgeiswyr ar ran Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru. Mae'r sefydliad yn ymroddedig i fod yn agored ynglŷn â sut mae'n casglu a defnyddio'r data a bodloni ei rwymedigaethau diogelu data.

### Pa wybodaeth rydym yn ei chasglu?

Mae Practice Solutions yn casglu amrywiaeth o ddata amdanoch. Gall hyn gynnwys:

- eich enw, cyfeiriad, a manylion cyswllt, gan gynnwys cyfeiriad ebost a rhif ffôn;
- manylion eich cymwysterau, sgiliau, profiad a chyflogaeth;
- gwybodaeth am lefel bresennol eich cydnabyddiaeth ariannol, gan gynnwys hawl i fudd-daliadau;
- os oes gennych anabledd, ar gyfer yr hwn y mae angen i'r sefydliad wneud addasiadau rhesymol yn ystod y broses recriwtio, a
- gwybodaeth am eich hawl i weithio yn y DU.

Gall Practice Solutions gasglu'r wybodaeth hon mewn nifer o ffyrdd. Er enghraifft, efallai bydd data ar ffurflenni cais, CV neu grynodeb, data o'ch pasbort neu ddogfennau adnabod eraill, neu gwybodaeth a gesglir mewn cyfweliad neu fath arall o asesiad.

Gallwn hefyd gasglu data amdanoch gan drydydd partïon, megis geirda. Byddwn yn gofyn am wybodaeth gan drydydd parti dim ond ar ôl gwneud cynnig i chi, a byddwn yn eich hysbysu ein bod yn gwneud hynny.

Caiff data ei storio mewn gwahanol fannau, gan gynnwys ar eich cofnod o wneud cais, neu mewn systemau rheoli AD / gweinyddol ac ar systemau TG eraill (gan gynnwys ebost).

### Pam y mae Practice Solutions yn prosesu data personol?

Mae angen i ni brosesu data ar ôl i chi wneud cais, cyn llunio contract gyda'r Fforwm. Efallai hefyd y bydd angen i ni brosesu eich data er mwyn llunio contract gyda chi.

Mewn rhai achosion, bydd angen i ni brosesu data er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda rhwymedigaethau cyfreithiol.

Mae gan Practice Solutions ddiddordeb dilys mewn prosesu data personol yn ystod y broses recriwtio ac i gadw cofnodion o'r broses. Mae prosesu data gan ymgeiswyr yn caniatáu i ni reoli'r broses recriwtio, asesu a chadarnhau addasrwydd yr ymgeiswyr gyda'r Fforwm. Efallai hefyd y bydd angen i ni brosesu data gan ymgeiswyr er mwyn ymateb i ac amddiffyn yn erbyn hawliadau cyfreithiol.

Gall Practice Solutions brosesu categorïau arbennig o ddata, megis gwybodaeth am darddiad ethnig, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred, er mwyn monitro ystadegau recriwtio. Gallwn hefyd gasglu gwybodaeth ar a yw ymgeiswyr yn anabl, er mwyn gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer

ymgeiswyr sydd ag anabledd. Rydym yn prosesu gwybodaeth o'r fath er mwyn bodloni rhwymedigaethau ac ymarfer hawliau penodol mewn perthynas â chyflogaeth.

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, efallai y bydd Practice Solutions yn cadw eich data personol ar ffeil rhag ofn y bydd cyfleoedd yn y dyfodol y gallech fod yn addas ar eu cyfer. Byddwn yn gofyn am eich caniatâd cyn cadw eich data i'r diben hwn ac mae gennych ryddid i dynnu eich caniatâd yn ôl ar unrhyw adeg.

## Pwy sy'n gallu gweld y data?

Efallai y caiff eich data ei rannu'n fewnol i ddibenion yr ymarfer recriwtio. Mae hyn yn cynnwys aelodau'r Fforwm, y Tîm Arweinyddiaeth, Adnoddau Dynol a'r sawl sy'n cyfweld yn y broses recriwtio.

Ni fyddwn yn rhannu eich data gyda thrydydd partïon, oni fo eich cais am gyflogaeth / cyfleoedd hunangyflogaeth yn llwyddiannus. Os bydd angen, byddwn wedyn yn rhannu eich data gyda chyn-gyflogwyr er mwyn cael geirda, a darparwyr archwiliad cefndir er mwyn cael archwiliad cefndir angenrheidiol.

## Sut mae Practice Solutions yn diogelu data?

Rydym yn cymryd diogelwch eich data o ddifrif. Mae gennym bolisïau a rheolaethau ar waith i sicrhau nad yw eich data yn cael ei golli, ei ddinistrio'n ddamweiniol, ei gamddefnyddio neu ei ddatgelu, ac nad yw ein gweithwyr yn edrych arno ac eithrio wrth ymgymryd â'u dyletswyddau yn briodol.

## Pa mor hir y mae Practice Solutions yn cadw data?

Os bydd eich cais yn aflwyddiannus, bydd y sefydliad yn cadw eich data ar ffeil am 6 (chwe) mis ar ôl i'r broses recriwtio berthnasol ddod i ben. Os byddwch yn cytuno ein bod yn cael cadw eich data personol ar ffeil, byddwn yn cadw eich data am 6 (chwe) mis pellach er mwyn ystyried cyfleoedd yn y dyfodol. Ar ddiwedd y cyfnod hwnnw, neu unwaith y byddwch yn tynnu eich cydsyniad yn ôl, bydd eich data yn cael ei ddileu neu ei ddinistrio. Gofynnir i chi, wrth i chi gyflwyno eich CV / Mynegiant o Ddiddordeb, os ydych yn rhoi caniatâd i ni gadw eich data am y 12 mis llawn er mwyn cael eich hystyried ar gyfer swyddi eraill ai peidio.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd data personol a gesglir yn ystod y broses recriwtio yn cael ei drosglwyddo i'ch ffeil Adnoddau Dynol (electronig a phapur) a'i gadw yn ystod eich cyfnod gyda ni. Bydd y cyfnodau pan ddelir eich data yn cael ei darparu i chi mewn hysbysiad preifatrwydd newydd.

## Eich hawliau

Fel gwrthrych data, mae gennych nifer o hawliau. Gallwch:

- gweld a chael copi o'ch data o wneud cais;
- gofyn i'r sefydliad newid data anghywir neu anghyflawn;
- gofyn i'r sefydliad ddileu neu roi'r gorau i brosesu eich data, er enghraifft lle nad oes angen cadw'r data mwyach i ddibenion prosesu, a
- gwrthwynebu i brosesu eich data lle mae Practice Solutions yn dibynnu ar ei fuddiannau dilys fel rheswm cyfreithiol ar gyfer prosesu.

Os hoffech arfer unrhyw un o'r hawliau hyn, cysylltwch â karen@practicesolutions-ltd.co.uk

Os ydych yn creu nad yw'r sefydliad wedi cydymffurfio gyda'ch hawliau diogelu data, gallwch gwyno i'r Comisiynydd Gwybodaeth.

## Beth os nad ydych yn darparu data personol?

Nid oes rhwymedigaeth statudol na chytundebol arnoch i ddarparu data i Practice Solutions yn ystod y broses recriwtio. Fodd bynnag, os na fyddwch yn darparu'r wybodaeth, efallai na allwn brosesu eich cais yn briodol neu o gwbl.